



Canolfan Gydwethredol Sefydliad
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi
ar gyfer Iechyd a Llesiant



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Sut y gallai cytundebau masnach rhyngwladol helpu neu lesteirio llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru?

Archwilio effeithiau posibl y CPTPP ar lesiant
a'r cyfleoedd ar gyfer cytundebau masnach yn y dyfodol
i gefnogi economi llesiant

Awduron

Leah Silva, Uwch Swyddog Datblygu Polisi a Thystiolaeth Ryngwladol (leah.silva@wales.nhs.uk)
a Dr Louisa Petchey, Uwch Arbenigwr Polisi (louisa.petchey@wales.nhs.uk)

Hoffem ddiolch i gydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru am ddarparu adborth ar yr adroddiad: Liz Green, Sumina Azam a Jo Peden. Hoffem ddiolch hefyd i Julie Sloan a John-Mark Wargent am brawfddarllen.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg / This report is available in Welsh

ISBN: 978-1-83766-234-0

©2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru..

Pwrpas

Nawr bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth y DU yn negodi cytundebau masnach ryngwladol ar ran gweddill y DU am y tro cyntaf ers bron i hanner degawd. Mae gan gytundebau masnach ryngwladol y potensial i gael effaith gadarnhaol a negyddol ar iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru.

Yma rydym yn darparu methodoleg weledol ar gyfer archwilio'r ffyrdd y gallai cytundebau masnach rhyngwladol penodol gael yr effaith hon drwy lens y nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn yr adroddiad ffeithlun hwn, rydym yn crynhoi effeithiau posibl y DU yn ymuno â Chytundeb Masnach Rydd y Bartneriaeth Traws-Môr Tawel Gynhwysfawr a Chynyddol (CPTPP). Yn y dyfodol, gellir defnyddio'r ffeithlun i archwilio sut y gall cytundebau masnach ryngwladol gefnogi newid i economïau llesiant yng Nghymru a ledled y byd. Gobeithiwn y bydd hyn yn cefnogi rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt i ddeall sut y gall masnach ryngwladol effeithio ar eu meysydd gwaith neu eu poblogaethau a'u galluogi i ymateb yn well i'w heffeithiau ac eirioli dros gytundebau masnach buddiol yn y dyfodol.

Cyflwyniad

Nod cytundebau masnach ryngwladol yw dod â chyfleoedd ar gyfer mwy o ffyniant i'r DU a Chymru drwy ehangu marchnadoedd, annog buddsoddiad tramor, a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd hyn yn annhebygol o gael eu rhannu'n gyfartal ar draws y DU neu ar draws Cymru, gyda rhai rhannau o'r boblogaeth o bosibl dan anfantais oherwydd telerau masnach. Mae tystiolaeth gynyddol o rôl cytundebau masnach ryngwladol wrth ddylanwadu ar fynediad at fwyd iach, meddyginiaethau, a gofal iechyd, yn ogystal ag effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth, amodau gwaith, rheoleiddio alcohol a thybaco ac amddiffyniadau amgylcheddol.

Gall yr holl ffactorau hyn effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl ac fe'u gelwir yn benderfynyddion iechyd – yr amodau y mae pobl yn cael eu geni ynddynt, ac yn tyfu, byw, gweithio a heneiddio ynddynt (Dalhgren a Whitehead, 1991). Mae'n debygol y byddai effeithiau negyddol posibl masnach yn cael eu teimlo fwyaf gan y rhai sy'n byw mewn tlogdi, gan waethygu canlyniadau iechyd presennol a chwyddo anghydraddoldebau yn y DU a Chymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021). Mae pryder y gallai awydd i ymrwymo i gytundebau masnach annog negodwyr i 'fasnachu' y nod tymor hir o boblogaeth iach a mwy cynhyrchiol yn gyfnewid am fanteision economaidd tymor byr (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019).


Mae masnach ryngwladol yn gorgyffwrdd â llawer o'r meysydd polisi o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod effaith trafodaethau masnach ryngwladol ar ddatblygu polisi ehangach yn hollbwysig i Gymru a'i gallu i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Y Ddeddf) a deddfwriaeth arall megis Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2015; Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n nodi saith nod llesiant sydd gyda'i gilydd yn creu gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwell i Gymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r saith nod yn eu holl benderfyniadau. Mae gan effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol masnach ryngwladol y potensial i wanhau neu gryfhau gallu Cymru i gyflawni'r nodau llesiant hynny, sydd wedi'u hymgorffori yn y gyfraith.



Mapio effeithiau posibl y CPTPP yn erbyn 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ffeithlun

Allwedd

 Effeithiau negyddol posibl a nodwyd
  Effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd



Amcanion a Dulliau'r Ffeithlun

Mae'r ffeithlun yn crynhoi sut y gall telerau cytundeb masnach effeithio ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw dangos lle gall cytundeb masnach helpu/cryfhau (+) neu lesteirio/gwanhau (-) y broses o gyflawni saith nod llesiant y Ddeddf. Mae'r ffeithlun wedi'i ddylunio fel y gellir ei addasu i grynhoi'n weledol effeithiau posibl unrhyw gytundeb masnach ar lesiant yng Nghymru. Drwy'r diffiniadau, mae'r ffeithlun hefyd yn amlygu'r cyfleoedd niferus y mae cytundebau masnach rhyngwladol yn eu cyflwyno ar gyfer diogelu a hybu iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru a ledled y byd.

Mae'r ffeithlun a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r effeithiau posibl ar Gymru yn sgil y DU yn ymuno â'r CPTPP. Fe'i datblygwyd gan ddefnyddio tystiolaeth (Atodiad 2) o asesiad effaith ar iechyd (HIA) Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r CPTPP, un o gytundebau masnach rydd (FTA) mwyaf y byd. Cwblhawyd yr HIA cyn cytuno i'r DU ymuno ar 29 Mawrth 2023 (Politico, 2023a). Mae'r CPTPP yn FTA sydd eisoes yn bodoli, y mae ei aelodau presennol yn cynnwys Awstralia, Brunei, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Seland Newydd, Periw, Singapore, a Fietnam. Gall gwledydd eraill wneud cais ac ymuno â'r CPTPP yn y dyfodol – er enghraifft, mae Tsieina wedi gwneud cais am aelodaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi dyfynnu rhesymau geo-wleidyddol dros ymuno â bloc masnach y CPTPP, gan ei weld fel rhan allweddol o wyriad polisi tramor y DU ar ôl Brexit yn yr Indo-Môr Tawel (Politico, 2023c).

Roedd yr HIA gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar lenyddiaeth academiaidd a adolygwyd gan gymheiriaid, llenyddiaeth lwyd (gan gynnwys dogfennau polisi ac adroddiadau), tystiolaeth a gasglwyd o gyfweiliadau a gweithdai rhanddeiliaid, a'r Proffil Iechyd Cymunedol (gan gynnwys gwybodaeth iechyd a data demograffig. Nid oedd manylion telerau'r DU yn ymuno â'r CPTPP ar gael ar yr adeg y'i cynhaliwyd.

Prif ganfyddiadau

Amlygodd tystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid, llenyddiaeth lwyd, gwybodaeth iechyd a chyfweliadau â rhanddeiliaid a dynnwyd ynghyd drwy'r broses HIA, yr effeithiau posibl canlynol mewn perthynas â nodau llesiant y Ddeddf a'r themâu ynddynt.



Mae gan y CPTPP y potensial i gael effaith gadarnhaol ar gyflawni nodau llesiant y Ddeddf a themâu o fewn y nodau:

- Potensial i gynhyrchu cyfoeth, agor mynediad i farchnadoedd tramor, a chynyddu buddsoddiad ("Cymru Fwy Llewyrchus");
- Potensial i gynyddu cyflenwad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd da, cynyddu ymchwil ac arloesi i ddatblygu triniaethau newydd a gwell, cynyddu dewis, amrywiaeth, neu argaeledd bwyd fforddiadwy, a chynnal safonau uchel o reoliadau rheoli tybaco ("Cymru Iachach");
- Potensial i wella iechyd meddwl o ganlyniad i dwf posibl mewn cyfoeth a gwelliant mewn amodau gwaith ("Cymru Fwy Cyfartal"); a
- Potensial i gryfhau'r economi sylfaenol – yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh) – a chefnogi cymunedau amrywiol o ganlyniad i newidiadau i ofynion fisa ("Cymru o Gymunedau Mwy Cydlynus").

Gellir gweld yr effeithiau cadarnhaol posibl hyn fel cyfleoedd i gryfhau llesiant mewn rhai meysydd a dylid manteisio arnynt nawr bod y DU wedi ymuno â'r CPTPP.





Mae gan y CPTPP y potensial i gael effaith negyddol ar gyflawni nodau llesiant y Ddeddf a themâu o fewn y nodau:

- Potensial ar gyfer twf economaidd cyfyngedig a cholli swyddi, gostyngiad yn safonau amodau gwaith (neu anallu i'w gwella), a diffyg polisiau caffael sy'n cefnogi llesiant ("Cymru Fwy Llewyrchus");
- Potensial i leihau safonau a rheoliadau amgylcheddol (neu anallu i'w gwella), gweithredu polisiau pecynnu a chludo lleol nad ydynt yn gynaliadwy, a lleihau arferion a safonau cynhyrchu bwyd cynaliadwy ("Cymru Fwy Cydnerth");
- Potensial i ostwng safonau cyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal, lleihau mynediad at feddyginiaethau cost-effeithiol, lleihau amddiffyniadau'n ymwneud â marchnata hybu iechyd a labelu bwyd a nwyddau, cynyddu mynediad at fwydydd nad ydynt yn iach a chynhyrchion anghyfreithlon (e.e. tybaco, alcohol, cyffuriau), a chynyddu amlygiad i glefydau heintus ("Cymru Iachach");
- Potensial i gynyddu anghydraddoldebau iechyd ac economaidd-gymdeithasol a gwaethygu anghydraddoldebau ymhlith y rhai â nodweddion gwarchoddedig ("Cymru Fwy Cyfartal");
- Potensial i niweidio cynhyrchwyr bwyd lleol oherwydd mwy o gystadleuaeth, lleihau gallu llywodraethau a sefydliadau cymdeithas sifil i lywio neu graffu ar drafodaethau cytundebau masnach, a lleihau gallu llywodraethau lleol i ddeddfu er budd gorau eu poblogaethau ("Cymru o Gymunedau Cydlynus"); a
- Potensial i wanhau sectorau diwylliannol arwyddocaol o boblogaeth ac economi Cymru ("Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu").



- **Gall y CPTPP hefyd gael effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl tebyg ar lefel fyd-eang ("Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang").**

1. Dalhgren, G a Whitehead, M (1991) Policies and strategies to promote social equity in health. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://core.ac.uk/download/pdf/6472456.pdf> (Cyrchwyd 23 Mawrth 2023)
2. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-English.pdf> (Cyrchwyd 23 Mawrth 2023)
3. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Effaith ar iechyd, llesiant a thegwch y Cytundeb Partneriaeth Traws-Môr Tawel Cynhwysfawr a Chynyddol (CPTPP) ar Gymru. [Ar-lein]. Ar gael yn https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2023/07/PHW-CPTPP-Report-Cym-10_07.pdf [Cyrchwyd 11 Gorffennaf 2023]
4. Politico (2023a) Britain secures agreement to join Indo-Pacific trade bloc. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://pro.politico.eu/news/161766> (Cyrchwyd 24 Ebrill 2023)
5. Politico (2023b) UK-Canada trade chiefs to meet after 'sour' Indo-Pacific talks. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://pro.politico.eu/news/161021> (Cyrchwyd 23 Mawrth 2023)
6. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) Goblygiadau Brexit i lechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Dull Asesu'r Effaith ar Iechyd (Prif Ganfyddiadau). [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/Implications-of-Brexit-Main-Findings-Welsh.pdf> (Cyrchwyd 23 Mawrth 2023)
7. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Beth allai cytundebau masnach ar ôl Brexit ei olygu i iechyd y cyhoedd yng Nghymru? [Ar-lein]. Ar gael yn https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/10/FINAL-PHW-Polisi-Post-Brexit-Trade-briefing-note-English-26_10_21.pdf [Cyrchwyd 23 Mawrth 2023].
8. Llywodraeth Cymru (2022) Rhaglen ar gyfer Llywodraethu. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/programme-government> (Cyrchwyd 23 Mawrth 2023)

Atodiad 1

Cyfleoedd i Gytundebau Masnach Rydd Helpu i Gyflawni Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Diffiniadau
Llewyrchus	Economi a Buddsoddi	Twf mewn CMC
		Ehangu mynediad i'r farchnad
		Llacio pryderon costau byw
	Cyflogaeth a Sgiliau	Cynnydd yn nifer y swyddi
		Cynnydd yng nghyfraddau cyflogaeth
		Gall pobl ddatblygu sgiliau sy'n addas ar gyfer y dyfodol
	Amodau Gwaith	Amddiffyniadau a llwybrau cyfreithiol i herio amodau gwaith gwael ar gael i'r gweithlu
		Safonau llafur uchel yn cael eu sefydlu/cynnal (ee, isafswm cyflog, oriau gwaith, iechyd a diogelwch galwedigaethol)
		Gall pobl sicrhau gwaith gweddus
	Caffael	Polisiau caffael yn cefnogi llesiant economaidd (ee, datblygu diwydiannau lleol presennol, swyddi a diwydiannau newydd)
Polisiau caffael yn cefnogi llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol		
Cydnherth	Hinsawdd	Safonau a rheoliadau amgylcheddol uchel yn cael eu sefydlu/cynnal
		Defnyddir adnoddau naturiol yn effeithlon, gan gydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang
		Polisiau ac arferion pecynnu a chludo cynaliadwy yn ymarferol/cael eu rhoi ar waith
		Deddfwriaeth ar derfynau carbon, parthau allyriadau isel, a sero-net yn ymarferol heb risg o heriau corfforaethol (ee Setliad Anghydfodau Buddsoddwr Wladwriaeth neu ISDS)
		Polisiau ac arferion caffael cynaliadwy yn ymarferol/cael eu rhoi ar waith
	Planhigion ac Anifeiliaid	Gall cynhyrchwyr Cymru ddangos cadwyni cyflenwi bwyd archwiliedig diogel y gellir eu holrhain
		Safonau a diogelwch bwyd uchel yn cael eu sefydlu/cynnal
		Safonau lles anifeiliaid uchel yn cael eu sefydlu/cynnal
	Aer a Dŵr	Polisiau ac arferion pecynnu a chludo cynaliadwy yn ymarferol/cael eu rhoi ar waith

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Diffiniadau
Iachach	Gwasanaethau a Gweithlu	Mwy o gyflenwad a mynediad at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
		Darparu a chaffael cyhoeddus mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yn cael ei gynnal (hy, gwasanaethau ac eiddo'r GIG wedi'u heithrio)
		Gweinyddiaeth ddatganoledig yn cadw'r pŵer dros ddarpariaeth gwasanaeth iechyd
		Safonau diogelwch cleifion uchel yn cael eu cynnal (e.e., trwy brosesau cymwysterau a chofrestru'r gweithlu)
	Meddyginiaethau	Mynediad at feddyginiaethau cost isel yn cael ei gynnal
		Meddyginiaethau cost-effeithiol ar gael ac wedi'u rhestru
		Polisiau ac arferion hysbysebu cyffuriau a thriniaeth diogel/sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu sefydlu/cynnal heb risg o heriau corfforaethol (e.e. ISDS)
	Bwyd/Deiet	Mwy o ddewis/amrywiaeth o fwydydd iach
		Mynediad at fwydydd iach, cost isel
		Polisiau ac arferion marchnata bwyd diogel/sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu sefydlu/cynnal heb risg o heriau corfforaethol (e.e. ISDS)
		Polisiau ac arferion labelu maeth hygyrch/seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu cynnal heb risg o heriau corfforaethol (ee ISDS)
	Ymddygiadau Iach	Ymdrechion cryf i reoli tybaco yn cael eu sefydlu/cynnal heb risg o heriau corfforaethol (ee ISDS)
Polisiau ac arferion labelu a phrisio cryf o ran alcohol yn cael eu sefydlu/cynnal heb risg o heriau corfforaethol (ee ISDS)		
Cyflenwad a defnydd isel o gynhyrchion nad ydynt yn iach/sy'n anghyfreithlon (e.e. tybaco, alcohol a chyffuriau)		
Clefydau Heintus	Amlygiad isel i glefydau heintus	
	Mecanweithiau atal/lliniaru effeithiol yn cael eu sefydlu/cynnal	
Cyfartal	Iechyd	Llai o anghydraddoldebau iechyd ar draws poblogaethau ac ardaloedd daearyddol
	Economaidd-gymdeithasol	Llai o dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar draws poblogaethau ac ardaloedd daearyddol (ee, hyrwyddo dyletswydd economaidd-gymdeithasol)
		Mynediad cyfartal i swyddi gweddus ar draws poblogaethau ac ardaloedd daearyddol
		Cyfle cyfartal ar gael i bobl ar draws poblogaethau ac ardaloedd daearyddol i gymryd rhan mewn trafodaethau masnach a phenderfyniadau polisi i alluogi canlyniadau cyfartal
	Nodweddion Gwarchodedig	Llai o anghydraddoldebau ymhlith poblogaethau â nodweddion gwarchodedig (e.e. menywod)

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Diffiniadau	
Cymunedau Cydlynus	Economi Leol	Economiâu lleol/sylfaenol yn cael eu hamddiffyn/cryfhau	
	Symudiad Pobl	Cymunedau lleol yn amrywiol	
	Cyfranogiad	Awdurdodau lleol yn meddu ar y pŵer i wneud penderfyniadau er budd ardaloedd lleol	
		Tryloywder, goruchwyliaeth a chraffu mewn trafodaethau masnach	
		Sefydliadau cymdeithas sifil (gan gynnwys, iechyd y cyhoedd) yn cael yr un cyfleoedd i gyfrannu at drafodaethau masnach â gweithredwyr corfforaethol	
Diwylliant ac Iaith	Diwylliant a'r Iaith Gymraeg	Sectorau diwylliannol bwysig o fewn poblogaeth Cymru yn cael eu hamddiffyn/cryfhau	
		Sectorau diwylliannol bwysig o fewn economi Cymru yn cael eu hamddiffyn/cryfhau (e.e. ffermio)	
Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang	Economaidd	Cyfraniad at feithrin gallu a datblygiad mewn Gwledydd Incwm Isel neu Ganolig	
		Hwyluso mesurau sy'n ceisio sicrhau buddion buddsoddi rhyngwladol mewn Gwledydd Incwm Isel neu Ganolig	
		Darparu cyfleoedd gwaith i drigolion nad ydynt o Gymru/y DU	
		Cefnogi a hyrwyddo safonau a rheoliadau llafur rhyngwladol	
	Cymdeithasol	Cefnogi a hyrwyddo safonau a rheoliadau hawliau dynol rhyngwladol	
		Cyfraniad at lesiant byd-eang	
		Cymru sy'n deg i bawb	
		Cefnogi a hyrwyddo polisiâu nad ydynt yn rhoi gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygiad dan anfantais	
		Annog mewnbyn gan sefydliadau cymdeithas sifil rhyngwladol mewn trafodaethau masnach	
			Cymru sy'n groesawgar ac yn ddiogel i bawb
	Amgylcheddol	Cefnogi a hyrwyddo safonau a rheoliadau amgylcheddol rhyngwladol uchel	
		Cadwyni cyflenwi teg, moesegol a chynaliadwy yn cael eu sefydlu/cynnal	
		Polisiâu ac arferion pecynnu a chludo cynaliadwy rhyngwladol yn cael eu sefydlu/cynnal	
		Defnydd effeithlon o adnoddau naturiol, gan gydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang (ee, atal datgoedwigo)	
		Bwyd a gynhyrchir o dan safonau diogelwch uchel yn cael ei gyflenwi'n fyd-eang	
		Cynhyrchion anifeiliaid a gynhyrchir o dan safonau lles anifeiliaid uchel yn cael eu cyflenwi'n fyd-eang	
Diwylliannol		Poblogaethau Cymru a rhai byd-eang yn cael eu galluogi i gyrchu ac ymgysylltu â'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill	

Atodiad 2

Sut gallai cytundebau masnach ryngwladol helpu neu lesteirio llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru?

Tystiolaeth o Asesiad Effaith ar Iechyd Cytundeb Masnach Rydd y Bartneriaeth Traws-Môr Tawel Cynhwysfawr a Chynyddol (CPTPP).

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
Llewyrchus	Economi a Buddsoddi	Cynydd posibl mewn CMC	Bilimoria, K. (2021) Zebedee (2021) Sefydliad y Cyfarwyddwyr (2022) Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Adran Busnes a Masnach (2023) Cyfweliad 2,3,9	Lleihad neu lonyddwch posibl mewn twf economaidd	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Cyngres yr Undebau Llafur (2018) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021c) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2021) Schram et al. (2018) McNamara CL a Labonté R (2017) Labonté et al. (2018) Gleeson et al. (2018) McNamara et al. 2023) Cyfweliad 4,11
		Ehangu posibl o ran mynediad i'r farchnad	Bilimoria, K. (2021) Zebedee (2021) Export News (2021) Express (2021) Sefydliad y Cyfarwyddwyr (2022) Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Clymblaid Masnach a Llesiant Anifeiliaid (2021) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (2021) Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Adran Busnes a Masnach (2023) Cyfweliad 7,11	Llacio posibl o ran pryderon costau byw	Cyngres yr Undebau Llafur (2018) Schram et al. (2018) McNamara CL a Labonté R (2017) Cyfweliad 10

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
		Y gallu i "Frando Prydain" – gall cynhyrchwyr y DU ddangos cadwyni cyflenwi bwyd archwiledig diogel y gellir eu holrhain	Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021)		
	Cyflogaeth a Sgiliau	Cynnydd posibl yn nifer y swyddi (ee, yn y sector gwasanaethau)	Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Adran Busnes a Masnach (2023) Cyfweiliad 2,3	Ychydig iawn o dwf cyflogaeth a cholli swyddi o bosibl (ee, mewn ffermio a gweithgynhyrchu)	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Cyngres yr Undebau Llafur (2018) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Schram et al. (2018) McNamara CL a Labonté R (2017) Labonté et al. (2018) Gleeson et al. (2018) Capaldo et al. (2016) McNamara et al. (2023) Cyfweiliad 4,6,11
	Amodau Gwaith	Cynnal safonau llafur o bosibl (ee, iechyd a diogelwch, oriau gwaith)	Zebedee (2021) Sefydliad y Cyfarwyddwyr (2022) Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Adran Masnach Ryngwladol (2021) Adran Busnes a Masnach (2023) Cyfweiliad 3	Dim darpariaethau i weithwyr ddwyn hawliadau llafur	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2021) Cyngres yr Undebau Llafur (2018) Canolfan Adnoddau Busnes a Hawliau Dynol (2022)
				Gostyngiad posibl mewn safonau llafur a/neu anallu i'w codi (e.e., isafswm cyflog, oriau gwaith, iechyd a diogelwch galwedigaethol)	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) BMA (2018) Cyngres yr Undebau Llafur (2018) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Arsyllfa Polisi Masnach y DU (2021a) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2021) McNamara et al. (2021b) McNamara CL a Labonté R (2017) Labonté et al. (2018) McNamara CL a Labonté R. (2019) McNamara (2015) Cyfweiliad 2,3,10



Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
				Anallu posibl i ddiwygio neu wrthod darpariaethau (rôl a/neu gynnwys llythyrau atodol yn anhysbys), a allai leihau'r siawns o ddarpariaethau sy'n adlewyrchu safonau llafur y DU	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Clymblaid Masnach a Llesiant Anifeiliaid (2021) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (2021) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Arsyllfa Polisi Masnach y DU (2021a)
	Caffael			Mae'n bosibl na all polisiau caffael annog datblygiad diwydiannau/swyddi/diwydiannau newydd lleol	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Cyngres yr Undebau Llafur (2018)
Cydnerth	Hinsawdd	Potensial i gynnal safonau amgylcheddol	Sefydliad y Cyfarwyddwyr (2022) Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Adran Masnach Ryngwladol (2021) Adran Busnes a Masnach (2023)	Gostyngiad posibl mewn safonau a rheoliadau amgylcheddol a/neu anallu i'w codi (darpariaethau nad ydynt yn rhwymol a chydweithrediad â rheoliadau aelod-wledydd a all fod â safonau is)	Greener UK (2021) Maint Cymru (dim dyddiad) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) McNamara et al. (2021b) Labonté et al. (2018) McNamara CL a Labonté R. (2019) Cyfweiliad 2,4,5
				Potensial i gynyddu gofynion ar bolisiau ac arferion pecynnu a chludo (ee mwy o blastig yn cael ei ddefnyddio a mwy o allyriadau carbon)	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Greener UK (2021) Maint Cymru (dim dyddiad) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Cyfweiliad 3,4,11

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
				Gall fod yn anoddach rheoleiddio/ deddfu ynghylch terfynau carbon, parthau allyriadau isel a safonau eraill (e.e. ISDS a heriau corfforaethol)	<p>Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Greener UK (2021) Maint Cymru (dim dyddiad) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) BMA (2018) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2022) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2021) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Arsyllfa Polisi Masnach y DU (2021a) Clymblaid Masnach a Llesiant Anifeiliaid (2021)</p> <p>Hirono et al. (2016) Labonté et al. (2018) McNamara et al. (2021b) McNamara et al. (2023)</p> <p>Cyfweliad 3</p>
				Gall fod yn anoddach sefydlu/cynnal polisiau ac arferion caffael cynaliadwy	<p>Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Greener UK (2021) Maint Cymru (dim dyddiad)</p> <p>Cyfweliad 4</p>
				Anallu posibl i ddiwygio neu wrthod darpariaethau (rôl a/neu gynnwys llythyrau atodol yn anhysbys), a allai leihau'r siawns o ddarpariaethau sy'n adlewyrchu safonau amgylcheddol y DU	<p>Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Clymblaid Masnach a Llesiant Anifeiliaid (2021) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (2021) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Arsyllfa Polisi Masnach y DU (2021a)</p>

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
	Planhigion ac Anifeiliaid			<p>Gostyngiad posibl mewn safonau bwyd a diogelwch a/neu anallu i godi safonau (e.e., mesurau iechydol a ffytoiechydol, neu SPS)</p> <p>Gostyngiad mewn safonau lles anifeiliaid ac anallu i godi safonau</p>	<p>Ymddiriedolaeth Nuffield (2021) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) BMA (2018) Sefydliad y Cyfarwyddwyr (2022) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Greener UK (2021) Clymblaid Masnach a Llesiant Anifeiliaid (2021) Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (2021) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021b) Arsyllfa Polisi Masnach y DU (2021b)</p> <p>Labonté et al. (2016) McNamara et al. (2021a) Labonté et al. (2018) McNamara CL a Labonté R. (2019) McNamara et al. (2023)</p> <p>Cyfweliad 3,4,7,10</p> <p>Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) BMA (2018) Greener UK (2021) Clymblaid Masnach a Llesiant Anifeiliaid (2021) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021b) Arsyllfa Polisi Masnach y DU (2021b)</p> <p>McNamara et al. (2021a)</p> <p>Cyfweliad 4,7</p>

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
	Aer a Dŵr			Cynnydd posibl yn y gofynion ar becynnu a chludo (ee, pellter cludo hirach)	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Greener UK (2021) Maint Cymru (dim dyddiad) Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (2021) Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Labonté et al. (2018) Cyfweliad 3,4,11
Iachach	Gwasanaethau a Gweithlu	Cynnydd posibl yn y cyflenwad o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol (e.e., cydnabyddiaeth o gymwysterau proffesiynol a masnach mewn gwasanaethau a gofynion fisa cliriach)	GMC (2018) Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Adran Busnes a Masnach (2023)	Potensial ar gyfer rhyddfrydoli gwasanaethau caffael a iechyd y llywodraeth a rhwystrau posibl i ailwladoli gwasanaethau yn y dyfodol (e.e. ISDS a heriau corfforaethol)	Ymddiriedolaeth Nuffield (2021) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) BMA (2018) Cyngres yr Undebau Llafur (2018) McNamara et al. (2021b) McNamara (2021b) McNamara et al. (2023)
				Cyfyngiadau posibl ar bŵer gweinyddiaethau datganoledig dros ddarparu gwasanaeth iechyd	Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) BMA (2018) Cyngres yr Undebau Llafur (2018)
				Bygythiadau posibl i ddiogelwch cleifion (ee, rheoleiddio cymwysterau a rheolaeth dros gofrestrau)	GMC (2018) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a)

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
	Meddyginiaethau	Potensial ar gyfer darpariaethau eiddo deallusol i annog ymchwil a datblygu gan arwain at fwy o feddyginiaethau yn yr hirdymor	Park a Lippoldt, 2008	Cynnydd posibl o ran costau a llai o fynediad at feddyginiaethau (ee, hawliau eiddo deallusol a bytholwyrddni, rhyddfrydoli fferylliaeth a heriau ISDS)	Ymddiriedolaeth Nuffield (2021) Mudiad Cyfiawnder Masnach (2018) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) BMA (2018) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021c) Labonté et al. (2016) McNamara et al. (2021b) Monasterio a Gleeson (2014) Thow et al. (2015) Luo J a Kesselheim AS (2015) Schram et al. (2018) Thow AM a Gleeson D. (2017) McNamara (2021b) Gleeson et al. (2018) McNamara et al. (2023)
				Newidiadau posibl i ba feddyginiaethau fydd yn cael eu rhestru (ee, mecanweithiau adolygu cost-effeithiolrwydd)	Ymddiriedolaeth Nuffield (2021) Monasterio a Gleeson (2014)
				Newidiadau posibl i hysbysebu cyffuriau a thriniaethau (ee, hysbysebu uniongyrchol i ddefnyddwyr)	Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Labonté et al. (2016)
	Bwyd a Deiet	Mwy o ddewis/ amrywiaeth o fwydydd o bosibl	Ymddiriedolaeth Nuffield (2021) Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Adran Busnes a Masnach (2023) Schram et al. (2018) Cyfweliad 7	Cynnydd posibl yn y mynediad at fwydydd rhatach/nad ydynt yn iach a gaiff eu bwyta	Schram et al. (2018) Thow AM a Gleeson D. (2017) Friel et al. (2013) Thow et al. (2015) McNamara et al. (2023) Cyfweliad 3,4,7,10

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
		Gostyngiad posibl mewn costau bwyd	Ymddiriedolaeth Nuffield (2021) Canolfan Astudiaethau Polisi (2022) Adran Busnes a Masnach (2023) Schram et al. (2018) Cyfweiliad 4	Y gallu posibl i farchnata bwydydd/ cynhyrchion nad ydynt yn iach, yn enwedig i blant ac oedolion ifanc (ee labelu maeth)	Hirono et al. (2016a) Hirono et al. (2016b) Monasterio a Gleeson (2014) Schram et al. (2018) Friel et al. (2013) Thow et al. (2015) McNamara et al. (2023) Cyfweiliad 4
	Ymddygiadau Iach	Potensial ar gyfer ymdrechion cryfach i reoli tybaco	American Cancer Society (2018a) American Cancer Society (2018b) Campaign for Tobacco Free Kids (dim dyddiad) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) McNamara CL, Labonté R, Schram A, Townsend B. (2021a) McNamara et al. (2021b) Hirono K, Gleeson D, Freeman B. (2016b) Thow AM a Gleeson D. (2017) Labonté et al. (2016)	Potensial ar gyfer heriau ISDS sy'n arwain at amharodrwydd rheoleiddiol (e.e., labelu/pecynnu tybaco)	Ymddiriedolaeth Nuffield (2021) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) BMA (2018) Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol (2021a) Arsyllfa Polisi Masnach y DU (2021a) Labonté et al. (2016) McNamara et al. (2021b) Hirono et al. (2016a) Hirono et al. (2016b) Monasterio a Gleeson (2014) Schram et al. (2018) Thow AM a Gleeson D. (2017) Fooks, G a Gilmore, AB. (2013) McNamara et al. (2023) Cyfweiliad 2,8
				Potensial ar gyfer rheolau a phrisiau labelu alcohol gwannach	BMA (2018) Labonté et al. (2016) McNamara et al. (2021a) Hirono et al. (2016) Monasterio a Gleeson (2014) Thow AM a Gleeson D. (2017) McNamara et al. (2023)

Nod Llesiant	Penderfynyddion	Effeithiau Cadarnhaol	Tystiolaeth	Effeithiau Negyddol	Tystiolaeth
				Mwy o gyflenwad/defnydd posibl o gynhyrchion nad ydynt yn iach/sy'n anghyfreithlon	Adran Masnach Ryngwladol (2021a) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Mae Fluharty et al. (2017) Stielke et al. (2011) Schram et al. (2018) Thow AM a Gleeson D. (2017) McNamara et al. (2023) Cyfweiliad 2,4
	Clefydau Heintus			Mwy o amlygiad posibl i glefydau heintus	Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021)
